# LC1402

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn trosi o ran Cymru Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau Cymunedol i reoli ffliw adar (ac yn diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EEC) i'r graddau y mae'n ymdrin â brechu yn erbyn ffliw adar. Maent yn disodli Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan ddefnyddio gweithdrefn rannol Weithredol, wedi iddynt gael eu cymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Tachwedd 2006, ond heb iddynt gael eu hystyried ymlaen llaw gan y Pwyllgor Deddfau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Ni nodwyd unrhyw bwynt i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylw

Mae’r croesgyfeiriad cyntaf at Reoliad y Gymuned ym mharagraff 3(b) yr Atodlen yn cyfeirio at 853/2004 yn y testun Saesneg ac at 852/2004 yn y testun Cymraeg. Mae’n amlwg o’r ddarpariaeth gyfatebol ym mharagraff 2(b) mai’r testun Saesneg sy’n gywir. Cytunodd y Pwyllgor y gellid cywiro’r mân wall teipio yma wrth argraffu.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**28 Tachwedd 2006**